Y Crwban Doeth

Helpu Eraill / Parchu Eraill

Amser maith yn ôl yn y jyngl roedd y llew yn byw efo'r anifeiliaid eraill. Ond un noson crynodd y ddaear; bu daeargryn mawr a daeth carreg fawr i lawr ac aros yng ngheg yr ogof lle roedd y llew yn cysgu dros nos. Pan ddaeth y carw heibio'n y bore clywodd rhywun yn galw o'r ogof, "Help! Help! Help!"

Gwyddai mai llais cras y llew oedd y llais oedd yn galw. Ceisiodd wthio'r garreg fawr ond doedd dim yn tycio. Aeth i chwilio am rai o anifeiliaid eraill y jyngl i ddod i'w helpu. Bu'r eliffant, y teigr a'r llewpart wrthi am hydoedd yn helpu'r carw i wthio'r garreg fawr oddi ar geg yr ogof. Ar ôl bustachu am bron i ddwy awr dyma nhw'n llwyddo. A phan ddaeth y llew o'r ogof y peth cyntaf wnaeth oedd neidio ar y carw gerfydd ei glustiau. Wnaeth o ddim dweud gair o ddiolch dim ond dweud, "Mi rydw i eisiau bwyd yn ofnadwy."

"Dyma fi wedi dy helpu i ddod allan o'r ogof a'r peth cyntaf wyt ti'n ei wneud ydi mynd ati i'm bwyta. Dydi hyn ddim yn deg" meddai wrth yr anifeiliaid eraill.

"Na" medden nhw efo'i gilydd, "Dydi hyn ddim yn deg."

"Beth am i mi ofyn i'r crwban doeth ddod i'n helpu. Rwy'n si_r y bydd ganddo fo ateb," meddai'r carw.

Rhuthrodd y llewpart yn ôl i'r jyngl i chwilio am y crwban doeth. Ymhen hir a hwyr cyrhaeddodd hwnnw. "Beth ydi'r stori?" gofynnodd.

Wrth i'r crwban gerdded yn araf tuag at yr ogof sibrydodd y llew yn ei glust, "Mae'n well i ti fy helpu, neu mi fydda i yn bwyta cawl crwban heno."

"Dywedwch eich stori yn araf", meddai'r crwban.

Dechreuodd y carw ar ei stori.

"Roedd y garreg fawr acw ar geg yr ogof"

Meddai'r llew wedyn,

"Ac mi roeddwn innau tu mewn i'r ogof a fedrwn i ddim dod

allan."
"Ond roedd y garreg yn rhy drwm i mi ei gwthio felly fe es i chwilio am help" meddai'r carw.
"Beth am i ni gael gweld yn union beth a ddigwyddodd" meddai'r crwban.
Felly dyma'r carw a'i ffrindiau yn gwthio'r garreg fawr ar geg yr ogof. Ond cyn iddyn nhw wneud hyn roedd y crwban wedi gorfodi'r llew i fynd i mewn i'r ogof.
"A beth ddigwyddodd pan ddaeth y llew allan o'r ogof?" gofynnodd y crwban.
"Mi ruthroddd arna i gerfydd fy nghlustiau a dweud ei fod am fy mwyta" meddai'r carw.
"Wel" meddai'r crwban yn feddylgar, "beth am i adael pethau fel maen nhw."
"Mi wnawn ni adael y llew yn yr ogof a'r garreg fawr ar geg yr ogof."
Diolchodd y carw a'r holl anifeiliaid eraill i'r crwban.
A'r llew? Efallai ei fod ef yn dal yn yr ogof. Pwy a w_r?

Pan fydda i, O Dduw, yn cael help gan bobl eraill y peth cyntaf fydda i eisiau ei wneud fydd diolch. Amen.

✦ Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r llew?
✦ Oeddech chi'n credu fod y crwban wedi bod yn ddoeth, wedi'r cwbl?